

DOLEN Y TAB – 50

9 – 10 EBRILL 2021

Oedfa Bore Sul 11 Ebrill

Yng ngofal y Parchg. Aled Edwards.

Oedfaon dros yr wythnosau nesaf

Ebrill

- 18 Manon a Geraint Huws
25 Geraint Rees

Mai

- 2 Emlyn Davies
9 Y Parchg. Aled Edwards

Hefyd Dydd Sul 11 Ebrill . . .

12:00 Oedfa Radio Cymru – Ramadan

Ar drothwy Gŵyl Foslemaidd Ramadan mae Laura Jones, sy'n dilyn Islam, yn sgwrsio gyda John Roberts am ei ffydd.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:00 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Bydd Nia ym Maldwyn yn clywed sut mae geiriau'r emynydd Ann Griffiths yn dal i ysbrydoli'r cerddor cyfoes Siân James. A bydd cyfle hefyd i fwynhau gwledd o berfformiadau ac emynau Ann ei hun.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

Canolfan Garth Olwg

Sgwrs y Mis:

Cipolwg ar enwau lleoedd Taf Elái gyda Dr Dylan Foster Evans

7.30yh Dydd Iau 22 Ebrill 2021

I gofrestru ar gyfer y sgwrs dros Zoom ewch i . . .

www.bookwhen.com/gartholwg

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 13 Ebrill. Os carech godi mater yn y Bwrdd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 0771 237327) **erbyn nos Lun 12 Ebrill.**

UNWAITH ETO – DIOLCH YN FAWR

DIOLCH YN FAWR i chi i gyd am eich cefnogaeth anhygoel o hael i Ymgyrch y Pasg, yn cyfrannu, didoli a phacio nwyddau hylendid, siocledi, ac wyau Pasg i'w rhannu rhwng lloches Cymorth i Ferched Cymru, canolfannau a chartrefi'r elusen Pobl, a Gwasanaethau Plant RhCT.

Unwaith eto, bu Jason a Morgan Edwards yn barod a llawen eu cymorth yn helpu John i ddanfôn y cwbl cyn y Pasg, a chodi calonnau pobl sy'n wynebu amser caled.

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Anrhydeddu John Llew a'r Tabernacl

Ni chyrrhaeddodd y newyddion yn ddigon buan ddydd Gwener diwethaf i ni gynnwys y llun isod o John Llewellyn Thomas a Mike ac Iwan West yn derbyn tystysgrifau gan Jason M. Edwards, yr Uchel Siryf, fel arwydd o werthfawrogiad trigolion Morgannwg Ganol am y 'trugaredd a'r ymroddiad' a roddodd John ac aelodau'r Tabernacl i'r



gymuned leol yn ystod cyfnod y pandemig. Gan nad oedd modd cynnal y seremoni arbennig o flaen cynulleidfya'r Tabernacl, manteisiwn ar y cyfle hwn i gyhoeddi'r llun fel arwydd o'n balchder fel eglwys.

Cranogwen: merch o flaen ei hamser

Ar 26 Mawrth lansiodd Prosiect Coffa Cranogwen gan Bwyllgor Lles Llangrannog, gyda'r nod o sicrhau bod cerflun yn cael ei godi iddi yn ei phentref genedigol. Cefnogir y prosiect gan *Monumental Welsh Women*, sef mudiad i goffáu pump o ferched trwy godi cerfluniau i ddathlu eu bywydau. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn cystadleuaeth lle gwahodwyd y cyhoedd i fwrw pleidlais i ddewis merch nodedig i fod yn wrthrych cerflun yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Ymhlith y pump oedd ar y rhestr fer, a ddewiswyd gan banel o arbenigwyr, roedd Sarah Jane Rees (Cranogwen), 1839–1916. Yn 2019 cyhoeddwyd mai Betty Campbell, prifathrawes ddu gyntaf Cymru, ddaeth i'r brig, ond cymaint oedd y diddordeb yn y gystadleuaeth penderfynwyd mynd ati i gynllunio i godi cofebau i'r pedair arall ar y rhestr.

Merch Amryddawn

Mae'n debyg mai ei chyfraniad fel golygydd *Y Frythones*, sef cylchgrawn i ferched a sefydlwyd yn 1879, yw'r prif reswm pam nad aeth enw Cranogwen yn gwbl angof ymhlith caredigion y Gymraeg. Prif gynnwys y misolyn oedd erthyglau crefyddol, ysgrifau ar y teulu a sut i gadw cartref, bywgraffiadau o ferched amlwg, ynghyd â cherddi a cherddoriaeth. Er mai hi ei hun a luniodd llawer o'r deunydd a welid yn y cylchgrawn, rhoddodd bob cyfle hefyd i ferched eraill gyfrannu ysgrifau a cherddi. Yn wahanol i'w ragflaenydd, *Y Gymraes*, a olygwyd gan Ieuan Gwynedd, llwyddwyd i gyhoeddi'r cylchgrawn am dair blynedd ar ddeg – camp ryfeddol mewn oes pan mai byrhoedlog oedd hanes cylchgronau Cymraeg a gyhoeddwyd heb nawdd enwadol. Ond ymhell cyn sefydlu'r *Frythones* roedd Cranogwen eisoes wedi profi bod ganddi dalent lenyddol arbennig pan gipiodd y wobr gyntaf am gerdd i'r 'Fodrwyr Briodasol' yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1865 gan drechu cystadleuwyr amlwg megis Islwyn, Ceiriog a Mynyddog. Cyhoeddwyd casgliad swmpus o'i cherddi yn *Caniadau Cranogwen* yn 1870 – llawer ohonynt yn gerddi fu'n fuddugol mewn cystadlaethau eisteddfodau ar hyd a lled Cymru.

Yn sgil ei daliadau crefyddol cadarn, roedd hi hefyd yn derbyn gwahoddiadau i bregethu ar y Sul mewn cyfnod pan oedd gweld merch yn y pulpud yn gwbl groes i ddisgwyliadau aelodau capeli ymneilltuol. Er bod llawer o weinidogion yn gwgu at hyn, profodd Cranogwen ei bod yn bregethwr poblogaidd iawn ar sail ei gallu i gyflwyno'i chenadwri gydag arddeliad.

Yna, o'r 1880au ymlaen, arweiniodd hyn at dderbyn gwahoddiadau i draddodi darlithoedd cyhoeddus. Roedd cymaint o fri ar ei darlithoedd nes ei bod cyn hir yn derbyn gwahoddiadau i annerch cynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru.

Yna yn 1901, pan oedd dros ei thrigain oed, cytunodd i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o drefnu Undeb Dirwestol i Ferched y Ddwyr Rhondda, a ailenydd yn Undeb Dirwestol Merched De Cymru ychydig yn ddiweddarach. Roedd dewis Cranogwen i arwain y mudiad yn un doeth gan iddi fod yn ymgyrchydd effeithiol yn erbyn alcohol ers blynnyddoedd, ac roedd hi'n ymwybodol o'r problemau difrifol a ddiodeffid yn ei sgil gan deuluoedd yng nghymoedd ddiwydiannol de Cymru. Dan ei harweiniad medrus ac ysbrydoledig hi, sefydlwyd deg o ganghennau yn sir Forgannwg erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, ac erbyn i Cranogwen farw yng Nghilfynydd yn 1916 roedd tua 140 o ganghennau ar draws y de.

Mae'n hawdd iawn anghofio iddi dreulio dwy flynedd yn gweithio ar longau cargo gan ennill cymhwyster fyddai'n caniatáu iddi reoli llong a hefyd i ddysgu crefft morwriaeth i bobl ifanc. Yn ogystal, roedd hi'n gerddor medrus a bu'n arholwr allanol ar y tonic sol-ffa.

Cydnabyddiaeth Deilwng o'r Diwedd

Does dim dwywaith bod y penderfyniad i osod enw Cranogwen ymhlith y criw dethol a ddewiswyd i'w choffáu gyda chofeb yn un cwbl haeddiannol. Barn yr Athro Deirdre Beddoe, ysgolhaig sydd wedi arbenigo ar hanes merched yng Nghymru, amdani yw mai '*Cranogwen oedd y ferch fwyaf nodedig yng Nghymru y bedwaredd ganrif ar bymtheg.*' Wrth olrhain ei chyfraniad i fywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru, mae'n amhosib dadlau â'r casgliad hwn. Y rhyfeddod mwyaf yw sylweddoli cyn lleied o gydnabyddiaeth a roddwyd iddi yn ystod ei hoes, ac am gan mlynedd wedi ei marwolaeth. Mae'n wir bod cofnod byr amdani yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1953, ond pan gymharwn y gofod prin a neilltuir iddi hi ochr-yn-ochr â'r cofnod sylweddol i Evan Jones (Ieuan Gwynedd), a wasanaethodd ei genedl mewn llawer o'r un meysydd, mae'n anochel dod i'r casgliad bod mwy nag elfen o ragfarn yn yr ymddriniaeth a roddwyd i'r ddau. Credaf fod y nodyn golygyddol a ychwanegwyd i'r cofnod yn y fersiwn digidol o'r *Bywgraffiadur* yn 2020: '*Bu Cranogwen yn cyd-fyw am ugain mlynedd olaf ei hoes gyda'i chymar, Jane Thomas . . .*', yn cadarnhau'r amheuron hyn.

DARLITH GOFFA GETHIN ABRAHAM-WILLIAMS

Diwedd y Byd?

Apocalyptic Cristnogol ac ymatebion i newid hinsawdd

Wedi iddo dreulio cyfnodau sabothol yn 2020 yn astudio newid hinsawdd, fe wahoddwyd y Parchg. Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, i draddodi Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams ddydd Iau Mai 20 o 5–6.30yh.

Cynhelir y ddarlith ar-lein, a gellir cadw lle [yma](#).

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205.